# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyllideb 2024/25

Adroddiad y Prif Swyddog, Cyllid a TGCh

## Cynnwys


**Cefndir** 3

Adolygiad o’r Flwyddyn Cyfredol 2023/24
Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru
Cyllideb 2024/25
Cronfeydd a Balansau
Incwm

**Ail-lunio y Cyllideb Arian Parod** 8

**2024/25 Crynodeb Cyllideb Refeniw** 9

Gwariant Corfforaethol a Canolog

**Gwybodaeth Treth y Cyngor 2024/25** 11

**Crynodeb o’r Gyllideb** 14

Amgylchedd a Thechnegol
Cynllunio a Rheoleiddio
Economi
Gofal Cymdeithasol
Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
Tai a Asedau
Cyfrif Refeniw Tai
Cyllid a TGCh
Llywodraethu a Chwsmeriaid
Trwsio a Chynnal
Prif Weithredwr
Corfforaethol a Chanolog

**Rheoli Risgiau Allweddol** 19

Chwyddiant a chyfraddau llog – pwysau ychwanegol
Cyllid ariannol / rhagolygon
Pwysau gwasanaethau
Cyllideb Ysgolion
Cymhlethdod anghenion
Costau ariannu cyfalaf
Cyflawni cynlluniau arbed
SCAPE (Cynnydd Pensiwm Athrawon**)**

## Cefndir

1. Mae’r broses o gynllunio cyllideb yr awdurdod lleol yn Wrecsam, fel ym mhob man arall, yn gofyn am edrych yn fuan ar ragolygon cyllidol y Cygnor yn seiliedig ar ddangosyddion economaidd cenedlaethol a chyfansymiau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer gwariant awdurdodau lleol.

2. Mae cynlluniau ariannol tymor canolig y Cyngor wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio'r paramedrau canlynol:

    - Cynnydd mewn cyllid grant o 3.2% in 2024/25 ac yna 1.5% yn 2025/26 a 2026/27.

    - Cynnydd o 9.9% yn Nhreth y Cyngor Band D yn 2024/25 ac amcangyfrifon rhagarweiniol o 6% yn 2025/26 a 2026/27 (nodwch mai lefel wirioneddol Treth y Cyngor yn benderfyniad blynyddol i aelodau etholedig).

    - Rhagdybiaethau chwyddiant amcangyfrifiedig:

        - Darpariaeth gyflog o 5% ar gyfer 2024/25 i’r rhai nad ydynt yn athrawon, a 3% ar gyfer 2025/26 a 2026/27.
        - Darpariaeth gyflog o 5% i athrawon ar gyfer 2024/25 a 3% am 2025/26 a 2026/27.
        - Darperir ar gyfer chwyddiant ywch mewn meysydd penodol, yn cynnwys Ynni (7.5%) a darparwyr Gofal Cymdeithasol (yn amrywio o 5-10%), PFI (4%) a chostau bwyd (3%) yn 2024/25
        - Nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi cael gwneud mewn ardaloedd eraill yn 2024/25, fodd bynnag byddwn yn adolygu hyn.

    - Ymrwymiadau hysbys a phwysau sy’n dod i’r amlwg

    - Arbedion/toriadau gwasanaeth

3. Bydd y cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd

## Adolygiad o’r Flwyddyn Gyfredinol 2023/24

4. Mae’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn o ran arian parod yn gyfyngedig i £303,116,859.

5. Cafodd y gyllideb ei monitor a’i rheoli’n ofalus yn ystod y flwyddyn yn unol â’r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae’r amgylchedd economaidd y mae’r cyngor yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf ac mae hyn wedi effeithio ar ragdybiaethau cynllunio cyllideb y cyngor, o ran cyllid a chostau. Mae pwysau galw hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig o ran darpariaeth gofal arbenigol i blant. Mae gofynion gwasanaeth, cymhlethdod a disgwyliadau ôl-bandemig mewn darpariaethau gofal cymdeithasol ac addysgol plant arbenigol wedi cynyddu’n sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn effeithio ar gostau darpariaeth uniongyrchol a chostau cysylltiedig, megis cludiant o'r cartref i'r ysgol.

6. Adroddwyd ar ragolwg cynnar yn Ch1, yn amlygu pwysau posibl yn ystod y flwyddyn o £23.8m, pe na bai camau lliniaru yn cael eu cymryd. Cwblhawyd gwaith sylweddol dros haf 2023 ac mae hyn wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cyson yn y rhagolwg, gyda rhagolwg diweddaraf Ch3 yn nodi pwysau o £5.4m. Rhagwelir mai'r sefyllfa derfynol fydd sefyllfa gytbwys, heb ddefnyddio'r arian wrth gefn heb ei gynllunio.

7. Bydd yr holl gyllidebau yn parhau i gael eu harchwilio'n ofalus yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt a bydd ardroddiad ar y sefyllfa ariannol derfynol ym mis Mehefin 2024.

**Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru**

8. Mae dosbarthiad y setliad i awdurdodau unigol yn dibynnu ar fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol. Ar gyfer 2024/25 nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r fformiwla

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad refeniw dros dro ar gyfer awdurdodau lleol ar 20 Rhagfyr 2023. Rhoddodd y setliad dros dro gynnydd cyfartalog o 3.1% i awdurdodau lleol Cymru, a chyfran Wrecsam oedd cynnydd o 3.2%. Bydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 27 Chwefror 2024. Dylid nodi mai 2024/25 yw blwyddyn olaf cyfnod yr adolygiad gwariant presennol. Mae amcangyfrifon cyllid y tu hwnt i 2024/25 yn ansicr. Mae'r amcangyfrifon yn y MFTP wedi'u hallosod o amcangyfrifon cyfredol yr OBR o wariant y sector cyhoeddus a rheolau cyllidol y llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y rhain yn newid yn dilyn adolygiad ffurfiol nesaf o wariant y DU – pwynt a nodwyd yn rhagolygon yr OBR ei hun.

**Cyllideb 2024/25**

10. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel y'i gwelir ar tudalen 9, wedi ei llunio yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno gan y Cyngor. Mae'r gyllideb wedi'i chreu ar sail gynyddrannol, yn dechrau gyda chyllideb y flwyddyn bresennol gan addasu i gynnwys chwyddiant, ymrwymiadau, pwysau ac arbedion, o fewn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (cyfanswm y setliad refeniw gan Lywodraeth Cymru) a'r cyllid a gesglir yn lleol drwy Dreth y Cyngor.

11. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gwariant refeniw yn **£318,669,885**.

12. Mae'n un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 fy mod yn adrodd i aelodau ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddiben cyfrifo'r gofyniad cyllideb net. Dylwn felly dynnu eich sylw at nifer o feysydd risg allweddol yr wyf wedi'u nodi yn y gyllideb a sut y gellir eu rheoli. Mae proffil risg cyllidebau cynghorau yn genedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12-18 mis diwethaf ac adlewyrchir hyn yn y manylion a amlinellir yn Atodiad 2. Diweddariadau yn ymwneud â'r risgiau allweddol hyn yn cael eu hadrodd i'r aelodau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn ôl yr angen fel rhan o weithdrefnau monitro a rheoli'r gyllideb.

## Cronfeydd wrth gefn a Balansau

13. Mae awdurdod lleol angen lefel ddarbodus o falansau i gynnal llif arian parod digonol, yn enwedig yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol cyn derbyn incwm treth y cyngor, ac i ddiwallu gwariant annisgwyl.

14. Nid yw cynllun cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad wedi ei gyllidebu i'r balansau cyffredinol nac ohonynt. Fodd bynnag, wrth bennu'r gyllideb ac fel lliniariad i helpu i reoli risg, bydd cronfa wrth gefn ar gyfer lliniaru'r gyllideb yn cael ei sefydlu. Y diben yw helpu i reoli risg yn 2024/25 – boed hynny'n bwysau galw anochel, chwyddiant cyflogau, cyflawni arbedion, ac ati.

15. Dyma ddadansoddiad o brif falansau a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd amcangyfrifedig y Cyngor:

| | **Balans Gwirioneddol at 1 Ebril 2023 £k** | **Amcangyfrif o'r Balans at 1 Ebril 2024 £k** |
|---|---|---|
| Balans Cronfa'r Cygnor | 8,433 | 8,433 |
| Balansau Ysgolion | 10,517 | 3,480 |
| Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau | 2,174 | 1,281 |
| Cronfeydd wrth Gefn Eraill a Glustnodwyd (yn cynnwys Cronfeydd grantiau) | 16,591 | 13,397 |
| **Cyfanswm Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn** | **61,536** | **39,452** |

16. Mae'r balansau amcangyfrifedig ar 1 Ebrill 2023 yn y tabl uchod yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Bydd y sefyllfa yr adroddwyd arni yn newid yn dilyn cau cyfrifon 2022/23 a bydd yn cael ei adrodd i'r aelodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

17. Yn unol â Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, bydd cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno neu ei ddychwelyd i falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer dyraniad mwy priodol.

**Incwm**

Llywodraeth Cymru Cyllid Grant – Cyllid Allanol Cyfyn (AEF)

18. Grant Cynnal Refeniw – Mae cyfran y Fwrdeistref Sirol o'r Grant Cynnal Refeniw terfynol wedi ei phennu ar £183,282,554.

19. Cyfraddau Busnes – Mae puntdal cyfraddau busnes ar gyfer 2024/25 wedi ei bennu ar 53.5c mewn £. Cyfran y Fwrdeistref Sirol o incwm ardrethi annomestig cenedlaethol yn 2024/25 yw £48,680,035.

20. At ei gilydd, bydd y Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru yn £231,962,589 yn 2024/25.

Treth y Cyngor

21. Ar ôl ystyried y grantiau a chyfraniadau cyffredinol o falansau, bydd y balans net ar gyfer cyfanswm y gwariant o £86,707,296 yn cael ei ariannu gan drethdalwyr y cyngor.

22. Bwriedir codi fel traul arbennig ran o'r gost o oleuo troedffyrdd mewn pedair ardal gymunedol yn y dref (£7.16 ar fand D), yng nghymuned Llangollen Wledig (£24.46 ar fand D), y Waun (£16.05 ar fand D) a Glyntraian (£18.62 ar fand D).

23. Ar ôl addasu ar gyfer treuliau arbennig o £176,300 y balans sydd i'w gael fel treuliau cyffredinol gan drethdalwyr y cyngor yw £86,530,996.

24. Cyfrifiad sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25, yw 54,260 eiddo sy'n cyfateb i fand D ar ôl caniatáu ar gyfer:
    - gostyngiadau band ar gyfer pobl anabl
    - eiddo eithriedig
    - gostyngiadau deiliad unigol
    - gostyngiadau dwbl ar eiddo gwag
    - premiwm ar eiddo a ddosberthir fel eiddo gwag hirdymor neu ail gartref
    - ffactorau i adlewyrchu'r tâl cymharol ar wahanol fandiau
    - cyfradd casglu amcangyfrifedig
    - cyfraniadau yn lle treth y cyngor gan y Weinyddiaeth Amddiffyn

    Mae'r sylfaen dreth gyffredinol yn seiliedig ar yr un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal gymunedol ac mae'r ardaloedd sydd "gyfwerth â band D" wedi eu nodi ar tudalen 11.

25. Bydd rhannu'r balans sy'n wariant cyffredinol gan drethdalwyr y cyngor (£86,530,996) â'r sylfaen dreth o 54,260 yn rhoi £1,594.75 i'w dalu gan aelwyd sy'n talu'n llawn a'u cartref wedi ei brisio fel band D. Ar gyfer eiddo band A mae'r gost yn 6 rhan o 9 o'r ffigwr hwn hyd at eiddo band I sy'n 21 rhan o 9 o ffigwr band D. Mewn llawer o achosion bydd y ffigurau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer disgownt pobl anabl a gostyngiadau eraill, a hefyd budd-dal treth y cyngor.

26. Mae Atodiad 3 yn nodi cyfradd treth y cyngor ar gyfer trethdalwr band D ar gyfer pob ardal cyngor cymuned ac yn dangos pan gaiff praesept awdurdod yr heddlu ei gynnwys, mai cyfanswm treth cyngor band D ar gyfartaledd ar gyfer 2024/25 yw £2,013.95.

## Casgliad

27. Blwyddyn ariannol 2024/25 yw blwyddyn olaf y cyfnod adolygu gwariant cyfredol. Felly, mae rhagolygon ariannu y tu hwnt i 2024/25 yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ystadegol a dadansoddiad presennol a rheolau cyllidol a pholisïau gwariant y llywodraeth genedlaethol. Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhoi darlun llwm o ran cyllid cyhoeddus, er eu bod nhw eu hunain yn nodi y bydd eu rhagolygon yn newid yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr nesaf o wariant. Mae data o Ddadansoddiad Cyllid Cymru yn allosod lefel bosibl o gyllid cynghorau yng Nghymru ac mae rhagolygon 2025/26 a 2026/27 yn ystyried y rhagolygon hyn. Mae eu dadansoddiad hefyd yn dod i'r casgliad y bydd y rhan fwyaf o'r twf yng ngrym gwariant cynghorau dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf yn debygol o ddod o Dreth y Cyngor, yn hytrach na mwy o arian gan y llywodraeth.

28. Yn seiliedig ar asesiadau cyfredol o senarios a rhagolygon cyllid cyhoeddus cenedlaethol mae'r rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd nesaf hefyd yn edrych yn anodd iawn. Gall y sefyllfa newid pan fydd y Llywodraeth nesaf yn cyflwyno adolygiad o wariant ond ar ragolygon cyfredol a rheolau cyllidol y llywodraeth, mae'r sefyllfa'n edrych yn anodd iawn.

29. Gyda'r cyd-destun hwnnw mewn golwg, mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen newid sylweddol a fydd yn cyflwyno opsiynau i'w hystyried fel rhan o strategaeth y gyllideb a'r strategaeth darparu gwasanaethau dros y 2-3 blynedd nesaf.

30. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i’r Cyngor fonitro ei gyllideb ac i gymryd camau priodol. Bydd yn ofynnol felly monitro a rheoli’r gyllideb yn agos dros y flwyddyn a bydd angen adolygu’r sefyllfa ariannol yn barhaus.

31. Yn olaf, hoffwn ddangos fy ngwerthfawrogiad i’r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth, cydweithrediad a’u gwaith caled wrth gynorthwyo i baratoi’r gyllideb hon.

Richard Weigh

**Prif Swyddog, Cyllid a TGCh**

## Ail-lunio y Cyllideb Arian Parod

1. Mae'r cyllidebau arian cyfyngedig ar dudalen 9 wedi'u hail-lunio er mwyn adlewyrchu cyfanswm cost gwasanaethau i gynnwys costau cymorth.

2. Mae costau cymorth adrannol wedi'u hailgodi'n llawn ar y gwasanaethau y maent yn eu cefnogi; mae hyn yn cynnwys elfen sydd wedi'i hailddyrannu i Wariant Corfforaethol a Chanolog. Adlewyrchir hyn yng ngholofn J ar dudalen 9 ac yng nghorff tudalennau'r gyllideb.

3. Gellir cydnabod o'r crynodeb ar dudalen 9 a thudalennau'r gyllideb unigol bod y Prif Weithredwr, Cyllid a TGCh, Llywodraethu a Chwsmeriaid ac Atgyweirio a Chynnal a Chadw oll wedi cael eu Cyllidebau Arian Cyfyngedig wedi'u hailgodi ar draws y gwasanaethau eraill; mae'r ailddyraniad cost hwn yn seiliedig ar fatricsau sydd wedi'u nodi fel rhai priodol.

4. Fel rhan o’r Cod, mae’r costau canolog wedi’u haildrefnu i:

   - Craidd Corfforaethol a Democrataidd (gan gynnwys Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth Gorfforaethol)
   - Costau Heb eu Dosbarthu (gan gynnwys Costau Gwasanaeth Gorffennol a chostau sy’n gysylltiedig â chyfrannau o gyfleusterau TG nas defnyddiwyd)
   - Gwasanaethau Canolog i’r Cyhoedd (gan gynnwys cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a chostau casglu, Crwneriaid, Cofrestru Etholiadol ac ati)
   - Incwm a Gwariant Gweithredu Arall (gan gynnwys ardollau oddi wrth gyrff eraill a chyllid cyfalaf).

5. Er bod y rhain yn addasiadau sylweddol at ddibenion cyfrifyddu, mae pŵer gwario sylfaenol y gwasanaeth yn parhau'n union fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor.

2024/25 Crynodeb o'r Cyllideb Refeniw

| | 2023/24 Cyllideb Arian Cyfyngedig (£) | Chwyddiant Tâl (£) | Chwyddiant Arall (£) | Ymrwymiadau a Phwysau sy'n Dod i'r Amlwg (£) | Arbedion/ Toriadau Gwasanaeth (£) | Arbedion/ Toriadau i'w habnabod (£) | 2024/25 Cyllideb Arian Cyfyngedig (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgylchedd a Thechnegol | 39,812,121 | 1,158,321 | 1,304,476 | 1,450,000 | (840,000 | 0 | 42,884,918 |
| Economi a Cynllunio | 7,347,127 | 604,444 | (39,230) | 0 | (1,135,000) | 0 | 6,777,341 |
| Gofal Cymdeithasol # | 85,191,566 | 2,314,873 | 5,773,519 | 7,100,000 | 0 | 0 | 100,379,958 |
| Addysg a Ymyrraeth Gynnar | 7,750,147 | 905,031 | 8,211 | 0 | (70,000) | 0 | 8,593,389 |
| Ysgolion | 102,171,206 | 5,209,505 | 540,643 | 668,000 | (5,396,066) | 0 | 103,193,288 |
| Tai ac Asedau | 5,153,638 | 862,990 | (88,024) | 400,000 | (865,000) | 0 | 5,463,604 |
| Cyllid a TGCh | 8,505,241 | 616,839 | (31,693) | 0 | (605,000) | 0 | 8,485,387 |
| Llywodraethu a Chwsmeriaid | 3,742,806 | 288,871 | (21,313) | 0 | (378,000) | 0 | 3,632,364 |
| Trwsio a Chynnal | 2,857,858 | 0 | (5,563) | 0 | (300,000) | 0 | 2,552,295 |
| Prif Weithredwr | 3,443,177 | 253,354 | (586) | 0 | **(353,000)** | 0 | 3,342,945 |
| **Cyfanswm Gwariant Gwasanaeth Net** | **265,974,887** | **12,214,228** | **7,440,440** | **9,618,000** | **(9,942,066)** | **0** | **285,305,489** |

# Yn cynnwys pob lleoliad arbenigol - darpariaeth gofal ac addysg

Gwariant Corfforaethol a Chanolog:

| | 2023/24 Cyllideb Arian Cyfyngedig (£) | Chwyddiant Tâl (£) | Chwyddiant Arall (£) | Ymrwymiadau a Phwysau sy'n Dod i'r Amlwg (£) | Arbedion/ Toriadau Gwasanaeth (£) | Arbedion/ Toriadau i'w habnabod (£) | 2024/25 Cyllideb Arian Cyfyngedig (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 15,639,247 | 10,421 | 24,572 | 150,000 | (2,798,000) | (1,771,757) | 11,254,483 |
| Adroll Tân | 8,599,536 | 0 | 0 | 907,188 | 0 | 0 | 9,506,724 |
| Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 12,903,189 | 0 | 0 | 0 | (300,000) | 0 | 12,603,189 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **303,116,859** | **12,224,649** | **7,465,012** | **10,675,188** | **(13,040,066)** | **(1,771,757)** | **318,669,885** |

| **Ariennir gan:** | **2023/24 Cash Limited Budget (£)** | **2024/25 Cash Limited Budget (£)** |
|---|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 224,836,836 | 231,962,589 |
| Incwm Treth y Cyngor | 78,280,023 | 86,707,296 |
| **Cyfanswm Incwm** | **303,116,859** | **318,669,885** |

NODWCH: Sylfaen y Dreth = Cyfwerth i dalwr Band "D" o Treth y Cyngor Llawn

| Sylfaen y Dreth | Cymuned | Costau Cyffredinol CBSW | Costau Arbennig CBSW | Heddlu Gogledd Cymru | Praeseptau Cymunedol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 315 | Abenbury | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 41.68 | 1,986.08 |
| 5,691 | Acton | 1,594.75 | 7.16 | 349.65 | 39.69 | 1,991.25 |
| 591 | Bangor Isycoed | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 34.51 | 1,978.91 |
| 664 | Bronington | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 36.37 | 1,980.77 |
| 2,825 | Broughton | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 61.08 | 2,005.48 |
| 1,941 | Brymbo | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 59.69 | 2,004.09 |
| 3,999 | Parc Caia | 1,594.75 | 7.16 | 349.65 | 68.00 | 2,019.56 |
| 2,302 | Cefn | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 73.30 | 2,017.70 |
| 157 | Ceiriog Ucha | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 63.69 | 2,008.09 |
| 1,666 | Y Waun | 1,594.75 | 16.05 | 349.65 | 85.80 | 2,046.25 |
| 1,732 | Coedpoeth | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 138.38 | 2,082.78 |
| 216 | Erbistog | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 7.87 | 1,952.27 |
| 1,441 | Esclusham | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 82.05 | 2,026.45 |
| 388 | Glyntraian | 1,594.75 | 18.62 | 349.65 | 67.01 | 2,030.03 |
| 2,652 | Gresfford | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 41.86 | 1,986.26 |

 NODWCH: Sylfaen y Dreth = Cyfwerth i dalwr Band "D" o Treth y Cyngor Llawn

| Sylfaen y Dreth | Cymuned | Costau Cyffredinol CBSW | Costau Arbennig CBSW | Heddlu Gogledd Cymru | Praeseptau Cymunedol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3,925 | Gwersyllt | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 97.04 | 2,041.44 |
| 373 | Hanmer | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 36.95 | 1,981.35 |
| 867 | Holt | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 41.79 | 1,986.19 |
| 233 | Isycoed | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 81.72 | 2,026.12 |
| 861 | Wledig Llangollen | 1,594.75 | 24.46 | 349.65 | 63.97 | 2,032.83 |
| 487 | Llansantffraid Glyn Ceiriog | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 82.14 | 2,026.54 |
| 2,101 | Llai | 1,594.75 | 7.16 | 349.65 | 67.27 | 2,011.67 |
| 741 | De Maelor | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 32.52 | 1,976.92 |
| 598 | Marchwiel | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 83.61 | 2,028.01 |
| 705 | Y Mynglawdd | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 64.50 | 2,008.90 |
| 4,307 | Offa | 1,594.75 | 7.16 | 349.65 | 48.76 | 2,000.32 |
| 685 | Owrtyn | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 106.98 | 2,051.38 |
| 1,136 | Penycae | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 71.26 | 2,015.66 |
| 2,953 | Rhosddu | 1,594.75 | 7.16 | 349.65 | 67.73 | 2,019.29 |
| 3,286 | Rhosllanerchrugog | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 96.18 | 2,040.58 |

Gwybodaeth am Dreth y Cyngor 2024/25

NODWCH: Sylfaen y Dreth = Cyfwerth i dalwr Band "D" o Treth y Cyngor Llawn

| Sylfaen y Dreth | Cymuned | Costau Cyffredinol CBSW | Costau Arbennig CBSW | Heddlu Gogledd Cymru | Praeseptau Cymunedol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,798 | Yr Orsedd | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 44.41 | 1,988.81 |
| 1,809 | Rhiwabon | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 81.01 | 2,025.41 |
| 320 | Seswick | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 9.38 | 1,953.78 |
| 495 | Wryddymbre/ Worthenbury | 1,594.75 | 0 | 349.65 | 39.39 | 1,983.79 |
| **54,260** | **Cyfanswm / Cyfartaledd** | **1,594.75** | **3.25** | **349.65** | **66.30** | **2,013.95** |

| **Amgylchedd a Thechnegol** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Cynllunio Argyfwng | 126,188 | 126,188 |
| Diogelwch Ffyrdd a Hebryngwyr Croesfannau Ysgol | 40,863 | 61,617 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 6,177,144 | 6,036,079 |
| Cefnogaeth Adrannol - Amgylchedd | 646,333 | 705,059 |
| PFI | 19,137,224 | 20,380,217 |
| Mynwentydd ac Amlosgfeydd | (516,322) | (516,322) |
| Casglu a Gwaredu Sbwriel | 4,509,510 | 4,891,222 |
| Glanhau Arall | 1,541,235 | 1,827,233 |
| Parciau a Mannau Agored | 1,595,166 | 2,129,807 |
| Cludiant Integredig | 6,736,010 | 7,553,755 |
| Meysydd Parcio a Pharcio wedi'i Ddadgriminaleiddio | (181,230) | (209,106) |
| **Total Amgylchedd a Thechnegol** | **39,812,121** | **42,884,918** |

| **Cynllunio a Rheoleiddio** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Bwyd / Iechyd a Diogelwch | 660,428 | 690,222 |
| Gwarchod a Rheoli'r Amgylchedd | 710,740 | 742,393 |
| Trwyddedu / Safonau Masnach | 327,059 | 121,860 |
| Polisi Rheoli Datblygu a Chynllunio | 537,786 | 297,912 |
| Pridiannau Tir Lleol | (77,176) | (78,122) |
| Cefnogaeth Adrannol - Diogelu'r Cyhoedd | 166,368 | 174,871 |
| Cefnogaeth Adrannol – Cynllunio | 383,432 | 404,873 |
| **Total Cynllunio a Rheoleiddio** | **2,708,637** | **2,354,009** |

| **Economi** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Adfywio a Busnes | 1,144,132 | 996,968 |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 84,661 | 85,744 |
| Marchnadoedd a Digwyddiadau Canol Tref | 615,711 | 576,786 |
| Llyfrgelloedd a Chanolfannau Adnoddau | 1,711,031 | 1,621,923 |
| Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | 1,000,056 | 1,079,516 |
| Cefnogaeth Adrannol | 82,899 | 62,395 |
| **Total Economi** | **4,638,490** | **4,423,332** |

| **Gofal Cymdeithasol** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol Oedolion | 4,812,105 | 5,124,389 |
| Pobl Hyn | 21,911,295 | 26,631,333 |
| Anabledd | 13,672,084 | 16,093,784 |
| Tîm Dyletswydd Argyfwng | 377,977 | 429,709 |
| Diogelu a Salwch Meddwl | 4,877,499 | 6,006,267 |
| Gwasanaethau Cofrestredig Oedolion | 8,549,834 | 9,903,116 |
| Uwch Reolwyr a Chymorth | (881,080) | (464,315) |
| **Cyfanswm Gofal Cymdeithason Oedolion** | **53,319,714** | **2,354,009** |
| Uwch Reolwyr a Chymorth | 1,446,816 | 1,542,871 |
| Atal a Diogelu | 2,446,280 | 2,665,494 |
| Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant a Chwarae | 592,013 | 722,981 |
| Rhianta Corfforaethol | 5,367,432 | 6,267,202 |
| Lleoliadau Plant | 16,995,769 | 19,677,898 |
| Gofal a Chymorth | 3,439,221 | 3,603,070 |
| Gwasanaethau Cofrestredig Plant | 1,409,300 | 1,996,022 |
| Taliadau Uniongyrchol Plant | 175,021 | 180,137 |
| **Cyfanswm Gofal Cymdeithasol Plant** | **31,871,852** | **36,655,675** |
| **Cyfanswm Gofal Cymdeithasol** | **85,191,566** | **100,379,958** |

| Addysg ac Ymyrraeth Gynnar | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig | 102,171,206 | 103,193,288 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **102,171,206** | **103,193,288** |
| Cyfoethogi Addysg Ac Ymyrraeth | 1,804,012 | 2,037,482 |
| Datblygu Chwaraeon | 287,408 | 405,916 |
| Addysg Blynyddoedd Cynnar | 703,727 | 703,557 |
| Cefnogi Cyflawniad | 4,955,000 | 5,446,434 |
| **Cyfanswm nad yw'n Ysgolion** | **7,750,147** | **8,593,389** |
| **Cyfanswm Addysg ac Ymyrraeth Gynnar** | **109,921,353** | **111,786,677** |

| Tai ac Asedau | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Ystadau Masnachol | (463,270) | (565,005) |
| Rheoli Asedau | 1,163,191 | 1,219,596 |
| Gwasanaethau Dylunio | (48,952) | (39,214) |
| Rheoli Cyfleusterau | 1,130,299 | 1,242,210 |
| Gwasanaeth Arlwyo | 899,573 | 1,054,546 |
| Cefnogaeth Adrannol | 183,434 | 200,072 |
| Strategaeth Tai gan gynnwys Tai Fforddiadwy | 272,828 | 282,593 |
| Budd-dal Tai | (365,050) | (365,050) |
| Tai Sector Preifat | 79,356 | 85,884 |
| Digartrefedd | 1,829,477 | 1,897,977 |
| Asiantaeth Gosod Lleol | 106,353 | 102,608 |
| Safleoedd Teithwyr | 128,500 | 136,615 |
| Cefnogi Pobl | 237,899 | 210,772 |
| **Cyfanswm Tai ac Asedau** | **5,153,638** | **5,463,604** |

| Cyfrif Refeniw Tai | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Cyfrif Refeniw Tai | (4,000) | (170,000) |
| **Cyfanswm Cyfrif Refeniw Tai** | **(4.000)** | **(170,000)** |

| Cyllid a TGCh | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Cyllid | 4,253,471 | 4,282,913 |
| TGCh | 4,251,770 | 4,202,474 |
| Cyfanswm Cyllid a TGCh | **8,505,241** | **8,485,387** |

| Llywodraethu a Chwsmeriaid | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 966,643 | 737,885 |
| Gwasanaethau Democrataidd a Chofrestru | 698,187 | 723,921 |
| Cwsmer a Chymreig | 1,422,740 | 1,474,183 |
| Gwasanaethau Digidol | 655,236 | 696,375 |
| Cyfanswm Llywodraethu a Chwsmeriaid | **3,742,806** | **3,632,364** |

| Trwsio a Chynnal | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Trwsio a Chynnal | 2,857,858 | 2,552,295 |
| Cyfanswm Trwsio a Chynnal | **39,812,121** | **42,884,918** |

| **Prif Weithredwr** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr a Chymorth | 288,334 | 299,535 |
| Perfformiad, Gwelliannau a Phartneriaethau | 1,049,883 | 922,462 |
| Adnoddau Dynol | 1,526,178 | 1,589,060 |
| Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant | 578,782 | 531,888 |
| **Cyfanswm Prif Weithredwr** | **3,443,177** | **3,342,945** |

| **Gwariant Corfforaethol a Chanolog** | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2023/24 (£) | Cyllideb Arian Cyfyngedig 2024/25 (£) |
|---|---|---|
| Craidd Corfforaethol a Democrataidd | 2,145,518 | 2,359,862 |
| Costau Na Ddosbarthwyd | 1,861,643 | (706,781) |
| Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | 13,423,542 | 13,173,542 |
| Ardoll Tan | 8,620,632 | 9,506,724 |
| Cyllid Cyfalaf | 8,307,464 | 6,297,464 |
| Gwasanaethau Hamdden | 829,073 | 829,073 |
| Gweithredu Incwm a Gwariant Arall | 1,954,098 | 1,904,512 |
| **Cyfanswm Gwariant Corfforaethol a Chanolog** | **37,141,970** | **33,364,396** |

## Rheoli Risgiau Allweddol

### Chwyddiant a chyfraddau llog – pwysau ychwanegol

Risg:

- Heb gytuno ar ddyfarniad cyflog athrawon a staff nad ydynt yn athrawon. Darpariaeth 5% wedi ei chynnwys yn y gyllideb. Bydd dyfarniadau cyflog uwchlaw'r lefel hon yn creu pwysau ariannol ychwanegol.

- Chwyddiant arall yn gynyddu y ty hwnt i'r hyn y darparwyd a rei gyfer yn y gyllideb (e.g. cyfleustodau).

- Bydd symudiadau cyfraddau llog yn y dyfodol yn effeithio ar y lefel yr incwm buddsoddi incwm os bydd cyfraddau'n lleihau neu'n cynyddu costau benthyca os bydd cyfraddau'n cynyddu.

Rheoli:

- Trwy drefniadau monitor a rheoli cyllideb y Cyngor. Ystyried arian wrth gefn i liniaru'r gyllideb o bosibl mewn perthynas â chyflog, os yw'r dyfarniadau'n parhau i fod yn fwy na'r hyn sy'n fforddiadwy.

- Trwy adrodd yn rheolaidd ar sefyllfa rheolaeth y trysorlys a chostau cyllido cyfalaf

### Cyllid / Rhagolygon Ariannol

Risg:

- Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd cyllid y llywodraeth ar lefelau llawer is nag yn y blynyddoedd diwethaf – er na fydd hyn yn cael ei gadarnhau nes bydd adolygiad newydd o wariant. Gallai'r sefyllfa yn y pen draw fod yn well neu'n waeth na'r rhagdybiaeth achos canolog presennol

Rheoli:

- Trwy drefniadau monitor a rheoli cyllideb y Cyngor. Mae rhaglen newid dwy flynedd yn cael ei datblygu i liniaru'r effaith ariannol.

### Pwysau ar wasanaethau:

- Nid oes darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud ar gyfer y cynnydd yn y galw am yr holl wasanaethau, yn enwedig darpariaeth statudol a darpariaeth sy'n cael ei harwain gan alw.

- Nid yw cyfraniadau ariannol o'r sector iechyd yn cwrdd yn ddigonol ag ymrwymiadau i ariannu pecynnau gofal i blant ac oedolion.

Risg:

- Y galw a'r gost am wasanaethau – fel lleoliadau gofal cymdeithasol arbenigol i blant, lleoliadau addysgol arbenigol, cludiant o'r cartref i'r ysgol, digartrefedd a gofal i bobl hŷn, barhau i fod yn uwch na lefel y cyllid sydd ar gael.

- Cynnydd mewn pwysau ariannol drwy atal costau iechyd i'r awdurdod lleol.

Rheoli:

- Parhad y Grwpiau Tasg a Gorffen sy'n cefnogi Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd.

- Adrodd yn rheolaidd ar ragolygon, risgiau a mesurau lliniaru. Ystyried cymhwyso'r gronfa lliniaru cyllideb wrth gefn os bydd cynnydd sylweddol yn y galw yn dod yn amlwg yn y rhagolygon.

- Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.

## Cyllideb Ysgolion

Risg:

- Mae sefyllfa ariannu yn arwain at gynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth diffyg trwyddedig.

Rheoli:

- Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol (Addysg, Cyllid a AD) i gyflawni cynlluniau adfer.

- Diwygiadau i'r Broses Diffyg Trwyddedig

- Fframwaith Monitro a Rheoli Cyllideb

## Cymhlethdod o anghenion

Risg:

- Yn gysylltiedig â'r ddau bwynt uchod, mae natur cyflwyniadau angen ar gyfer plant wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, lle mae gofynion a chymhlethdod anghenion wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r newidiadau'n digwydd yn gynt o lawer nag a gydnabyddir mewn fformiwlâu ariannu yn genedlaethol ac o fewn cyllidebau lleol. Bydd parhad o'r lefel hon o dwf yn ychwanegu at bwysau ar ofal cymdeithasol, cludiant ysgol, ysgolion ac addysg.

Rheoli:

- Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.

## Costau Ariannu Cyfalaf

Risg:

- Mae lefel y benthyca yn seiliedig ar lefel ac amseru ffynonellau eraill o gyllid, e.e derbyniadau cyfalaf a grantiau. Gall y rhain newid.

Rheoli:

- Trwy fonitro rheolaidd ac argymell i’r Bwrdd.

Cyflawni cynlluniau arbed

Risg:

- Ni ellir cyflawni cynigion arbed penodol a ragdybir yn y gyllideb i'r graddau a ragdybir.

- Ni ellir cyflawni targedau arbedion yn ôl y disgwyl. Mae'r risg yn y categori hwn yn uwch na lle mae cynigion arbedion penodol wedi eu hadnabod.

- Nid yw cynigion i gyflawni'r "arbedion sydd heb eu nodi eto" yn cael eu nodi a'u gweithredu mewn da bryd yn ystod 2024/25. Byddai hyn yn creu pwysau yn ystod y flwyddyn ac yn cynyddu pwysau cyllidebol yn 2025/26.

- Nid yw mesurau i reoli costau a galw trwy effeithlonrwydd a chaffael mewn meysydd penodol (Gofal Cymdeithasol a chludiant ysgol) yn effeithiol..

Rheoli:

- Monitro mesurau y cytunwyd arnynt yn rheolaidd. Ystyried cymhwyso'r gronfa lliniaru cyllideb wrth gefn.

SCAPE (Cynydd pensiynau athrawon)

Risg:

- Nid yw'r cynnydd yng nghostau cyflogwyr yn cael ei ariannu'n llawn (yn ôl y disgwyl) gan lywodraeth genedlaethol, gan ychwanegu at bwysau a gydnabyddir eisoes.

Rheoli:

- Monitro mesurau y cytunwyd arnynt yn rheolaidd. Ystyried cymhwyso'r gronfa lliniaru cyllideb wrth gefn.